


Darganfod Sir Ddinbych Discover Denbighshire



01978 860828

discoverdenbighshire.co.uk

northeastwales.co.uk

medieval-wales.com

clwydianrangeanddevalleyaonb.org.uk

 Darganfod Sir Ddinbych
Discover Denbighshire



Flotograffau / Photography
© Crown copyright (2014) Visit Wales / © Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru, White Fox, Laurence Crossman-Emms, Eye Imagery, Orange Imaging

Tref i bob diwrnod

Nid Llangollen yw'r unig dref yn Sir Ddinbych gyda llwybr ei hun. Mae saith llwybr arall - pob un yn llawn o ddi-ddordeb hanesyddol. Ond pob un yn wahanol iawn, gyda'r gobaith y byddwch yn darganfod hynny dros eich hunain. Cyn belled â bod gennych wythnos neu ddwy arall i'w sbario.

Ewch i Rhuthun i weld yr oriel celfyddydau cymhwysol gorau yng Nghymru, Llangollen am ei rheilffordd stêm estynedig newydd, Corwen i weld cofeb un o awyry mwyaf Cymru a Dinbych am ei chastell ar ben y bryn a muriau tref atgofus.

**Rhuthun
Ruthin**
llwybr y
dref
town
trail
sir ddinbych
denbighshire

Llangollen
llwybr y
dref
town
trail
sir ddinbych
denbighshire

Ewch i'r Rhyll ar gyfer ei phromenâd a thair milltir o dywod euraidd, Prestatyn ar gyfer dechrau Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Rhuddlan am ei castell ar lan yr afon a Llanelwy i weld y gadeirlan hynafol leiaf ym Mhrydain.

**Dinbych
Denbigh**
llwybr y
dref
town
trail
sir ddinbych
denbighshire

Corwen
llwybr y
dref
town
trail
sir ddinbych
denbighshire

A town for every day

Llangollen isn't the only town in Denbighshire with its very own trail. There are seven others - all packed with historic interest. But all very different, as we hope you'll discover for yourself. Just as long as you have another week or so to spare.

**Y Rhyll
Rhyll**
llwybr y
dref
town
trail
sir ddinbych
denbighshire

Prestatyn
llwybr y
dref
town
trail
sir ddinbych
denbighshire

Visit Ruthin for the best applied arts gallery in Wales, Llangollen for its newly extended steam railway, Corwen for a stirring memorial to Wales's greatest hero and Denbigh for its hilltop castle and evocative town walls.

**Llanelwy
St Asaph**
llwybr y
ddinas
city
trail
sir ddinbych
denbighshire

Rhuddlan
llwybr y
dref
town
trail
sir ddinbych
denbighshire

Visit Rhyll for its promenade and three miles of golden sands, Prestatyn for the start of Offa's Dyke Path National Trail, Rhuddlan for its stupendous riverside castle and St Asaph for the smallest ancient cathedral in Britain.

Eich antur yn Sir Ddinbych

Trefi marchnad llawn prysurdeb. Diwylliant Cymreig unigryw. Bwyd a diod blasus. Un o'r tirweddau gwarchoddedig harddaf yng Nghymru.

Bydd y syniadau'n byrlymu ar gyfer pethau i'w gwneud yn Sir Ddinbych. Ond rhag ofn... dyma ychydig o anturiaethau y dylech roi cynnig arnynt - a gallwch eu llwytho i lawr yn syth i'ch ffôn symudol.

Efallai yr hoffech roi cynnig ar weithgaredd greadigol, cael hwyl gyda'ch plant neu ymweld â hen adeiladau. Efallai bod gennych ddi-ddordeb mewn hanes cymdeithasol, teithiau cerdded yng nghefn gwlad neu deithiau trefol. Beth bynnag sydd at eich dant, mae 'na Antur Ddigidol Sir Ddinbych ar eich cyfer chi.

Yn Llangollen fe allwch chi ddysgu am fywyd ar y gamlas yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, edmygu harddwch yr ardal a thynnu lluniau gyda'ch camera neu fe allwch chi hwyllo "cychod daill" ar y dŵr. Ond nid dyna'r cwbl. Ewch i'r wefan i weld yr holl bethau sydd gan Sir Ddinbych i'w gynnig i chi ar flaenau eich bysedd.

digidolsirddinbych.co.uk

Your Denbighshire adventure

Bustling market towns. A unique Welsh culture. Delicious food and drink. One of the most beautiful protected landscapes in Wales.

You won't find yourself too short of ideas about what to do in Denbighshire. But just in case we've come up with a few adventures for you try - and you can download them straight to your mobile.

You might like getting creative, fun with your kids or visiting old buildings. You might be into social history, country walks or urban strolls. Whatever you want, there's a Denbighshire Digital Adventure just for you.

In Llangollen alone you can hear about canal life in the 19th century, capture its beauty with your camera or sail "leaf boats" on the water. And it doesn't stop there. Just visit the website to have the whole of Denbighshire at your fingertips.

digitaldenbighshire.co.uk



Llangollen

llwybr y dref town trail

sir ddinbych denbighshire

Darganfod Llangollen

Mae Llangollen wedi bod yn un o gyrchfannau mewndirol mwyaf poblogaidd Cymru ers peth amser bellach – a dydi hynny ddim yn syndod. Yng nghysgod y mynyddoedd ac adfeilion Castell Dinas Brân a adeiladwyd yn y 13eg ganrif, gorweddai'r dref mewn llecyn hardd ac unigryw.

Mae pedair priffordd fawr yn cyfarfod yma: Afon Dyfrdwy, Camlas Llangollen, y rheilffordd stêm a ffordd gerbydau enwog Telford, sef yr A5. Mae'r llwybr cylchol hwn yn rhoi cyfle i chi eu harchwilio nhw i gyd a mynd ar daith bensaernïol ar hyd strydoedd prysur y dref.

Bydd y daith ei hun yn cymryd ychydig oriau. Ond mae gofyn eich bod chi'n caniatáu ychydig bach mwy o amser. Wedi'r cyfan, efallai yr hoffech chi daith mewn cwch camlas neu drên stêm.

A chyda digonedd o siopau, tafarndai, bwytaï a chaffis i'w harchwilio hefyd, efallai y cewch chi'ch tentio i dreulio diwrnod cyfan yma.

Exploring Llangollen

Llangollen has long been one of Wales's most popular inland resorts – and no wonder. Its setting, guarded by mountains and the ruins of 13th century Castell Dinas Brân, is uniquely picturesque.

Four great highways meet here: the River Dee, Llangollen Canal, the preserved steam railway and Telford's monumental A5 coach road. This circular walk allows you to explore them all and take an architectural tour through the town's bustling streets.

The actual walking should last a couple of hours. But you'd better allow a bit longer. After all, you could easily find yourself on a canal boat or riding a steam train.

And with plenty of shops, pubs, restaurants and cafés to explore as well, you might very well be tempted to make a day of it.



Beth sy'n ei wneud yn arbennig?

Mae Llangollen yn rhan o dirwedd eiconig. Mae Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn ymestyn 11 milltir o Sir Amwythig i Raeadr y Bedol, ac mae Glanfa Llangollen yn rhan ohono.

O'ch cwmpas mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, un o bum ardal o'i math yng Nghymru.

Mae twristiaid wedi heidio yma ers oes y Sioriaid. Ac maen nhw'n dal yn heidio yma hyd heddiw ar gyfer yr hanes, y bensaerniaeth, y siopau, a'r bwyd a'r diod blasus. Mae Llangollen yn faes chwarae antur awyr agored enfawr – fe allwch chi bysgota yn afon Dyfrdwy, canŵio dros y dyfroedd gwyllt a cherdded ar hyd y manau agored llydan.

Am fwy o wybodaeth, codwch gopi o "Mwynhewch Sir Ddinbych Ganoloesol" neu ewch i medieval-wales.com.

What makes it special?

Llangollen is part of an iconic landscape. The Pontcysyllte Aqueduct and Canal World Heritage Site stretches for 11 spectacular miles from Shropshire to the Horseshoe Falls, taking in Llangollen Wharf along the way.

All around you is the Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty, one of just five in Wales.

Tourists have been drawn here since Georgian times. They still come today for the history, the architecture, the shops, the wonderful food and drink. And since Llangollen is one huge outdoor adventure playground, they also fish the Dee, canoe the rapids and walk the wide open spaces.

To find out more, pick up a copy of "Enjoy Medieval Denbighshire" or visit medieval-wales.com

Ble awn ni nesaf?

Dylai trenau, cychod, siopau, bwytaï a thai hanesyddol Llangollen fod yn fwy na digon i'ch cadw chi'n brysur. Ond os ydych chi'n penderfynu symud ymlaen, mae rhai o atyniadau enwocaf gogledd Cymru daflriad carreg o'r dref.

Where shall we go next?

The trains, boats, shops, restaurants and historic houses of Llangollen should be more than enough to keep you busy. But if you do decide to move on, you'll find some of the leading attractions of North Wales just a few miles away.

Abaty Glyn y Groes

Saif adfeilion yr abaty ger yr A542 y tu allan i Langollen. Yn y 13eg ganrif ar ddeg roedd yn adeilad trawiadol iawn ac yn gartref i fynachod Sistersaidd.

cadw.cymru.gov.uk 01443 336000



Valle Crucis Abbey

Ruined but hauntingly impressive home of 13th century Cistercian monks on A542 out of Llangollen.

cadw.wales.gov.uk 01443 336000

Bwlch yr Oernant

Dyma ffordd dyrpeg serth a thrawiadol, a grëwyd yn 1811, sydd hyd heddiw yn rhoi ias o gyffro i'r rheiny sy'n teithio tua Rhuthun.

ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk
01352 810614



Horseshoe Pass

Spectacularly steep turnpike road, built in 1811, that still delivers quite a thrill on the drive to Ruthin.

clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk
01352 810614

Capel y Rug

Dyma gapel a godwyd ger Corwen yn yr ail ganrif ar bymtheg. Y tu mewn, mae'r adeilad wedi ei addurno'n gain gyda phaent lliwgar a cherfiadau angylion, bwystifod a blodau.

cadw.cymru.gov.uk 01443 336000



Rug Chapel

Vibrantly painted and intricately carved angels, beasts and flowers adorn 17th century chapel near Corwen.

cadw.wales.gov.uk 01443 336000

1 Y Pafiliwn Rhyngwladol

Ewch ar hyd y llwybr tynnw ac wrth ymyl y bont ym mhen gorllewinol y maes parcio trowch i'r dde.

Os feddwch chi dymn eich llygaid oddi ar y pysgod sy'n gwibio drwy ddŵr clir camlas Llangollen, fe welwch chi'r Pafiliwn Rhyngwladol ar y ddydd ar y dde. Adeiladwyd y pafiliwn yn 1992 ac mae lle i 4,500 o bobl eistedd y tu mewn iddo. Yma, wrth gwrs, mae cartref Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen. Yn ogystal â chroesawu 120,000 o ymwelwyr a cherdorion o bedwar ban byd bob mis Gorffennaf, mae'r Pafiliwn yn cynnal rhaglen o gyngherddau a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn sy'n cynnwys Gŵyl Fwyd Llangollen ym mis Hydref.

llangollenpavilion.co.uk



1 International Pavilion

Join the canal towpath beside the bridge at the western end of the car park and turn right.

If you can tear your eyes away from the fish flitting through the clear waters of Llangollen Canal, you'll see the International Pavilion emerge on meadowland to your right. Built in 1992 and capable of seating 4,500 people, this is the home of the Llangollen International Musical Eisteddfod. Not content with welcoming 120,000 festival-goers and musicians every July, the Pavilion hosts a year-round programme of concerts and events including Llangollen Food Festival in October.

llangollenpavilion.co.uk

2 Glanfa Llangollen

Edrychwch o'ch cwmplas. Eithaf da, yn dydi? Cystal â'r Taj Mahal a'r Acropolis, yn ôl UNESCO. Felly, yn 2009, bu iddyn nhw ddyndyn 11 milltir o Gamlas Llangollen – gan gynnwys Rheadr y Bedol a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte – yn Safle Treftadaeth y Byd. Fe allwch chi deithio ar gwch i'r ddau gyfeiriad o'r fan hon. Bydd ceffylau yn gallu'ch tynnu chi hyd at Rhaeadr y Bedol ond bydd amoch chi angen modur, a gwyllo rhag bod eich pen chi'n troi, i gressi'r "afon syfrdanol yn yr awyr", campwaith Thomas Telford.

Ewch i'r dde ar ôl mynd heibio'r ystafell de a dilynwch ffordd Wharf Hill at y bont. Trowch i'r dde neu i'r chwith os oes amoch chi awydd mynd i fyny i Gastell Dinas Brân (taih 45 munud).



2 Llangollen Wharf

Look around you. Not bad, is it? Every bit as good as the Taj Mahal or the Acropolis, according to UNESCO. So in 2009 they made 11 miles of Llangollen Canal – including the Horseshoe Falls and mighty Pontcysyllte Aqueduct – into one big World Heritage Site. You can catch boats in both directions from here. Horses will pull you towards the Horseshoe Falls but you'll need a motor, and a head for heights, to cross Thomas Telford's awe-inspiring "stream in the sky".

Bear right after passing the tearoom and join Wharf Hill at the bridge. Turn right (or left if you fancy the signposted 45-minute climb to Castell Dinas Brân).

3 Pont Llangollen

Yn ôl y traddodiad, er nad oes sicrwydd ynghylch hyn, adeiladwyd Pont Llangollen gan yr Esgob John Trevor yn 1345. Heb amheuaeth, mae'r bont wedi ei haddasu ers hynny, yn anad dim i ganiatáu i geir groesi drosti ac i drenau fynd oddi tani. Ond, yr hyn sy'n sicr, yw ei bod yn cynnig darlun goiddog o dyfroedd byrlymog Afon Dyfrdwy, lle'r oedd pysgota eogiaid mewn cwngylau yn olygfa gyffredin iawn tan y 1950au. Does ryfedd felly ei bod hi'n un o "Saith Rhyfeddod Cymru". Heddiw rydych chi'n fwy tebygol o weld pobl yn canïo, caicio neu'n raffio i lawr yr afon gan fod Llangollen yn hafan ar gyfer chwaraeon dŵr a gweithgareddau awyr agored cyffrous eraill.

Ar ôl croesi'r bont, trowch yn syth i'r dde i Dee Lane.



3 Llangollen Bridge

Llangollen Bridge, one of the "Seven Wonders of Wales", was apparently built by Bishop John Trevor in 1345, although nobody knows for sure. It's certainly been altered a bit since then, not least to allow cars across and trains underneath. What we do know is that it provides a magnificent view of the rushing waters of the River Dee, where coracle fishing for salmon was a common sight until the 1950s. Nowadays you're likely to spot canoeists, kayakers and rafters because Llangollen is a hotspot for watersports and other adrenalin-fuelled outdoor activities.

After crossing the bridge, turn immediately right into Dee Lane.

4 Melin Flawd

Adeiladwyd y felin yn y drydedd ganrif ar ddeg gan fynaich Sistersiaid Abaty Glyn y Groes gerllaw. Ailadeiladwyd y felin flawd yn 1786 a bu iddi aros agor tan 1974. Ond, erbyn i'r felin gael ei rhoi ar osod i gwmni tafarn yn y 1990au, roedd mewn cyflwr ofnadwy ac mewn perygl o dymchwel i'r afon. Ond ddim heddiw. Rŵan fe allwch chi weld yr olwyn ddŵr yn troi y tu ôl i'r bar – a chael diod ar y deiciu pren a osodwyd i'r dde dros frwd a dyfroedd gwylt y felin.

Dilynwch y llwybr wrth ochr y Felin Flawd, ac yna trowch i'r chwith – neu fe allwch chi barhau i gerdded ar hyd Promenâd Victoria ar daith olygfaol i Barc Glan yr Afon lle mae yna le chwarae, cae pêl-droed a pharc sgleirio, yn ogystal â chaffi a golff gwallgof yn yr haf.



4 Corn Mill

Built in the 13th century by the Cistercians of nearby Valle Crucis Abbey, the Corn Mill was rebuilt in 1786 and remained a working mill until 1974. But it was in danger of falling into the river by the time it was leased to a pub company in the 1990s. Not any more. Now you can now see the water wheel turning again behind the bar – and have a drink on wooden decks built right over the mill race and rapids.

Follow the footpath beside the Corn Mill, then turn sharply left – or continue along Victoria Promenade for a scenic detour to Riverside Park with its play area, ball pitch and skate park, plus café and crazy golf in the summer.

5 Amgueddfa Llangollen

Mae Amgueddfa Llangollen wedi ei lleoli mewn adeilad amlochrog a adeiladwyd yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Mae yna ganolbwynt arbennig – replica maint llawn o Biler Eliseig. Saif y gofeb wreiddiol o'r nawfed ganrif ger Abaty Glyn y Groes ar yr A542 y tu allan i'r dref. Mae'r replica yn wahanol mewn dwy ffordd allweddol. Mae'r ansysgrif yn ddarlennadwy. Ac mae wedi ei wneud o bolystyren, ond fysech chi byth yn dweud. Mae'r amgueddfau yn llawn o arteffactau, dogfenau a ffotograffau yn adrodd hanes Llangollen ar hyd yr oesoedd.

Ar gornel Parade Street a Heol y Castell mae Neuadd y Dref a adeiladwyd yn 1867, sef yr hen Ystafelloedd Cynnull a Neuadd y Farchnad.




5 Llangollen Museum

Llangollen Museum is housed in a mid-20th century polygonal building with a striking centerpiece – a full-size replica of Eliseig's Pillar. The original ninth century monument stands near Valle Crucis Abbey on the A542 out of town. The replica differs in two crucial respects. Its inscription is legible. And it's made of polystyrene, although you'd never know. The museum is packed with artefacts, documents and photographs telling the story of Llangollen through the ages.

On the corner of Parade Street and Castle Street stands the 1867 Town Hall, once the Assembly Rooms and Market Hall.

Llwybr y dref : Town trail

Pellter	2 filltir / 3.2 km	Distance	2 miles / 3.2 km
Pa mor anodd yw'r llwybr?	Eithaf gwastad oni bai eich bod chi'n dewis mynd ar hyd y llwybr i Blas Newydd	Difficultly	Quite flat except for optional walk to Plas Newydd
Amser yn cerdded	2 awr	Walking time	2 hours
Man cychwyn	Maes parcio'r Pafiliwn Rhyngwladol, Ffordd yr Abaty LL20 8SW	Start point	International Pavilion car park, Abbey Road LL20 8SW
Cludiant cyhoeddus	Traveline Cymru 0871 200 2233, National Rail Enquiries 08457 484950	Public transport	Traveline Cymru 0871 200 2233, National Rail Enquiries 08457 484950



darganfodsirdinbych.co.uk discoverdenbighshire.co.uk



Tra eich bod yn cerdded... While you're walking....

Cadwch eich llygaid ar agor am yr anifail peryglus yma, rhan o ffasâd addurniadol un o dafarn dai Llangollen. Nawn ni ddim dweud wrthoch chi lle'n union i edrych – ond mae enw'r dafarn yn dipyn o gliw.

Keep your eyes peeled for this beefy chap, part of the decorative façade of a Llangollen pub. We won't tell you exactly where to look – but the pub's name is a bit of a giveaway.

6 Y Capel

Adeiladwyd y Capel yn y 1860au yn yr arddull Romanesg (bydd arbenigwyr pensaernïaeth yn eich plith wedi sylwi ar y tri bwa ar bilastro a dan y pediment). Cafodd ei gynllunio i ddal cynulleidfia o 400 o Fedyddwyr ond yn anffodus, wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, doedd dim angen cynnal seddi. Erbyn 1982 nid oedd y capel bellach o fudd.

Mae'r adeilad bellach yn ffynhonnell pob gwybodaeth, gyda Chanofian Groeso a llyfrgell i fyny grisiau. Mae yna hyd yn oed oriel gelf a chrefft gyfoes. Cafodd yr adeilad ei agor ar ei newydd wedd yn 2003 gan arlunydd Cymreig enwocaf yr ugeinfed ganrif, Syr Kyffin Williams – ac roedd o'n gwybod ei bethau'n iawn.



6 Y Capel

Y Capel was built in the 1860s in the Romanesque style (architecture buffs will note the three arches on pilasters beneath the pediment). It was designed to hold a congregation of 400 Welsh Baptists, sadly rather more than proved necessary as the generations went by. By 1982 it had outlived its usefulness as a chapel.

Now it's a fount of all knowledge, with a library upstairs and a Tourist Information Centre below. There's even a contemporary art and crafts gallery. The restored building was opened in 2003 by the greatest Welsh painter of the 20th century, Sir Kyffin Williams, who knew a good thing when he saw it.

7 Yr Arfdy

Ar ôl croesi'r A5 ym mhen uchaf Heol y Castell, efallai yr hoffech chi aros ennyd i fyfyrto ar y ffordd aruthrol o Lundain i Gaergybi a adeiladwyd gan Thomas Telford i gyflymu'r post rhwng y britddinas ac Iwerddon. Cafodd y ffordd ei chwblhau ar ôl codi Pont Grog Menai yn 1826.

Mae'r arfdy mewn tipyn o argyfwng hunaniaeth, ac mae'r adeilad hefyd yn cael ei alw'n The Old Lock-up. Mae'r dryswch yma'n adlewyrchu ei ddefnydd amrywiol ers ei adeiladu fel carchar a llys ynadon yn 1835. Fe'i defnyddiwyd yn ddweddarach fel neuadd y dref ac yna fel neuadd ymarfer ac arfdy ar gyfer Milisia'r Iwmyn tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



7 The Armoury

Having crossed the A5 at the top of Castle Street, you might pause to reflect that this is part of the immense London to Holyhead road built by Thomas Telford to speed the mail between the capital and Ireland. It was completed by the small matter of the construction of the Menai Suspension Bridge in 1826.

The Armoury has a bit of an identity crisis, also being widely known as The Old Lock-up. This confusion reflects its various uses since it was built as a jail and magistrates court in 1835. It was later used as a town hall and then a drill hall and armoury for the Yeomanry Militia until the end of the 19th century.

8 Plas Newydd

Cerddwch i fyny Heol y Bryn at Blas Newydd (mae'r plasty ar agor o fis Ebrill tan fis Hydref, ond mae'r gerddi ar agor drwy'r flwyddyn) neu fe allwch chi barhau i gerdded i lawr Regent Street a throi i'r chwith i mewn i faes parcio Eglwys Sant Collen.

Plas Newydd yw cartref byd-enwog Merched Llangollen: Sef y Fonesig Eleanor Butler a Miss Sarah Ponsonby. A oedd wedi rhedeg i ffrwd o Iwerddon. Yn 1780 bu iddyn nhw symud i mewn i fwynt bychan a'i droi'n ffantasi Gothig o wydr lliw a derw cerfedig. Bu i "ymddolad Rhamentaidd" y merched ddal dychymyg y gymdeithas Regentaidd a bu iddyn nhw groesawu llw o enwogion i'w cartref rhyfeddol, gan gynnwys William Wordsworth, Syr Walter Scott a Dug Wellington.

plasnewyddllangollen.co.uk



8 Plas Newydd

Walk up Hill Street to Plas Newydd (April-October, gardens all year) or continue down Regent Street and left into St Collen's Church car park.

This is the world-famous home of the Ladies of Llangollen: runaway Irish aristocrats Lady Eleanor Butler and Miss Sarah Ponsonby. In 1780 they moved into a modest cottage together and turned it into a Gothic fantasy of stained glass and carved oak. Their "Romantic retirement" captured the imagination of Regency society and they welcomed a steady stream of intrigued celebrities including William Wordsworth, Sir Walter Scott and the Duke of Wellington.

plasnewyddllangollen.co.uk

9 Eglwys Sant Collen

O Blas Newydd, dilynwch Butler Hill yn ôl i lawr i'r A5 a chroeswch i Church Street. Ewch i mewn i'r fynwent drwy'r gatiau haearn wrth ymyl Gwesty'r Hand.

Sefydlwyd yr eglwys yn y chweched ganrif gan Sant Collen, rhyfelwr Cristnogol a fu'n feudwy yn ddweddarach yn Nhwir Glastonbury. Yn ôl y chwedl bu iddo ymddol yma ar ôl trechu cawres leol a oedd yn llarpio dynion. Adeiladwyd yr eglwys a welwch chi heddiw yn y drydedd ganrif ar ddeg ond fe addaswyd cryn dipyn arni yn Oes Victoria. Ond, diolch i'r drefn, mae'r ddau drawst gordd cerfedig wedi goroesi. A welwch chi'r heneb driongl yn y fynwent i Farched Llangollen a'u morwyn Mary Carryl – marmor Eidalaid iddyn nhw a thywodfaen ar gyfer Mary.



9 St Collen's Church

From Plas Newydd, follow Butler's Hill back down to the A5 and cross into Church Street. Enter the churchyard through the iron gates next to the Hand Hotel.

The church was founded in the sixth century by Saint Collen, Christian warrior and later hermit on Glastonbury Tor, who apparently retired here after vanquishing a local man-eating giantess. The present church is 13th century with drastic Victorian alterations. Thankfully, the wonderful pair of carved hammer-beam roofs survived. Look out for the restored three-sided churchyard monument to the Ladies of Llangollen and their servant Mary Carryl – Italian marble for them, sandstone for her.

10 Rheilffordd Treftadaeth

Wrth i chi groesi'r bont eto fe welwch chi orsaf Rheilffordd Treftadaeth Llangollen-Corwen, a adeiladwyd yn 1865, wrth ymyl glan ogleddol Afon Dyfrdwy. Y tu mewn mae bar cafi yn gwnebi byrbrydau poeth a chwyrw go iawn a (pan fydd y trenau'n rhedeg) siop anhegion sy'n gwerthu pob mathau o nwyddau. Mae unig led rheilffordd treftadaeth safonol yng ngogledd Cymru bellach yn chwythu a phwffian am bron i 10 milltir drwy Ddyffryn Dyfrdwy. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Diolch i estyniad 2.5 milltir a gwblhawyd yn 2014 gan dîm o wirfoddolwyr wedi aros mawr, fe allwch chi rian deithio'r holl ffordd i Corwen trwy fynyddoedd y Berwyn, Glyndyfrdwy a Charroq.



10 Heritage Railway

Crossing the bridge again gives a perfect view of the 1865 station of the Llangollen-Corwen Heritage Railway as it hugs the north bank of the River Dee. Inside is a café bar serving hot snacks and real ale and (when the trains are running) a gift shop selling all sorts of merchandise. The only standard gauge heritage railway in North Wales now huffs and puffs for almost 10 miles through the stunning Dee Valley, an Area of Outstanding Natural Beauty. Thanks to a long-awaited 2.5 mile extension completed in 2014 by the team of volunteers, you can now ride all the way to Corwen via Berwyn, Glyndyfrdwy and Carrog.